



## **Dogfen Dychwelyd i'r Ysgol ar gyfer Rhieni/Gofalwyr**

Diolch am ymateb i'n harolwg, yn gofyn am arwydd o niferoedd y disgyblion sy'n dymuno derbyn y sesiynau 'Ailgydio' y trefnwyd eu darparu'n ddiweddarach y tymor hwn.

Rydym yn gwerthfawrogi y byddwch yn naturiol yn bryderus wrth feddwl am eich plentyn/plant yn dychwelyd i'r ysgol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, rhanddeiliaid a darparwyr cyngor annibynnol i gwblhau asesiadau risg manwl ar gyfer safle'r ysgol a hoffem rannu'r pwyntiau canlynol gyda chi isod (fersiwn cryno o'n dogfennaeth asesu risg fwy manwl o lawer yw hwn, a gymeradwywyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer ailagor ysgolion).

Wrth asesu risgiau ar y safle, rydym wedi mabwysiadu canllawiau'r Awdurdod bod pellter diogel o 2 fetr yn cael ei fabwysiadu hyd y bo'n rhesymol ymarferol, ond gan gydnabod nad yw hyn wastad yn bosibl mewn ysgolion. Mae'r holl fesurau cyfunol yn yr asesiad hwn wedi'u bwriadu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Mae rhieni eisoes wedi cysylltu â ni i ofyn a fydd eu plentyn/plant yn cael stŵr os byddant yn anghofio cadw pellter cymdeithasol ac yn rhoi cwtsh i'w ffrindiau, a fydd eu plentyn yn cael cymorth cyntaf priodol os byddant yn cwmpo yn ystod amser chwarae ac yn sgrifffio'u pen-glin neu a fydd eu plentyn yn cael cymorth i dorri eu bwyd yn ystod amser cinio. Yr hyn sydd o'r pwys mwyaf inni yw diogelwch a lles disgyblion a'r ateb byr yw, wrth gwrs y byddwn yn cysuro eich plentyn os oes angen ac wrth gwrs na fyddwn ni'n rhoi stŵr iddynt os byddant yn anghofio cadw pellter cymdeithasol ar ddamwain. Os oes angen help arnynt i dorri eu bwyd yn fân, wrth gwrs y byddwn ni'n gwneud hyn drostynt a byddwn yn syml yn mynd â'u plât bellter priodol i ffwrdd er mwyn gwneud hyn. Os bydd plant yn anghofio cadw pellter cymdeithasol, bydd staff yn atgoffa'r disgyblion yn bwyllog, lle y bo angen, i gofio cadw pellter cymdeithasol ac rydym yn gwerthfawrogi'n llawn y bydd ar blant angen amser i ymgyswrtu â'r 'normal newydd'. Fodd bynnag, pe bai plentyn yn fwriadol ac yn gyson yn dewis anwybyddu cyngor staff i gadw pellter cymdeithasol, yna er mwyn amddiffyn holl ddefnyddwyr safle'r ysgol, byddem yn gofyn i'r rhiant/gofalwr gasglu'r plentyn am weddill yr ymweliad ailgydio hwnnw.

Rydym wedi cynllunio llawer o weithgareddau cyffrous ac rydym yn gweithio bob dydd cyn ein bod yn agor i'r corff ehangach o ddisgyblion, i sicrhau bod eich plentyn yn cael y profiad mwyaf cadarnhaol a chroesawgar posibl, os byddwch yn penderfynu eu bod yn mynd i ddychwelyd i'r ysgol ar gyfer eu dwy sesiwn ddynodedig. Bydd rhai o'r weithgareddau hyn yn cynnwys chwaraeon a hwyl yn yr awyr agored, felly gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo dillad cyfforddus, y gellir eu golchi mewn peiriant golchi, i ddod i'r ysgol. Peidiwch â phrynu unrhyw eitemau newydd o ddillad nac esgidiau ar gyfer yr ysgol am weddill y tymor hwn os gwelwch yn dda; rydym yn gwerthfawrogi y gall plant fod wedi tyfu mwyaf sydyn yn y misoedd diwethaf ac mae croeso i'r plant wisgo beth bynnag sydd ganddynt. Nid oes gofyniad o gwbl i wisgo gwisg ysgol y tymor hwn, ond yn yr un modd os ydych yn dymuno gwneud y gorau o'r hyn sydd gennych cyn bod eich plentyn yn mynd yn rhy fawr iddo, yna mae croeso iddynt ei wisgo! Yn yr ystafell dosbarth rydym yn amcanu at uchafswm o 8 disgybl, i sicrhau ein bod yn gallu aildrefnu'r dodrefn i roi cymorth i gadw pellter cymdeithasol. Er ein bod wedi symud unrhyw eitemau diangen o'r ystafelloedd dosbarth, nid ydynt yn helaeth a gwag o bell ffordd a byddwn yn darparu deunydd ysgrifennu ac adnoddau i'r disgyblion eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol. Gofynnwn i'r disgyblion ymatal rhag dod ag eitemau o adref ac iddynt ddod â dim ond yr isafswm y mae ei angen arnynt (h.y. mae cinio pecyn yn iawn, ond efallai y dylid gadael y bag llawn trysorau gartref). Os yw plant yn dod â chinio pecyn, byddwn yn gofyn iddynt osod unrhyw sbwriel yn daclus yn eu bag cinio er mwyn mynd ag ef adref.

Bydd yr ysgol yn edrych yn wahanol iawn pan fydd y disgyblion yn dychwelyd ac nid yw safle'r ysgol ei hun yn eithriad o gwbl yn hyn o beth. Byddwn yn cau'r gât yn y fynedfa ar Ffordd y Dywysoges hyd oni hysbysir yn wahanol, i roi cymorth gyda'n systemau unffordd ar fuarth yr ysgol; dylai holl ddefnyddwyr y safle fynd i mewn ac allan o'r safle trwy'r brif fynedfa. Daliwch i ddefnyddio'r strydoedd o amgylch yr ysgol i barcio os gwelwch yn dda a pheidiwch â gyrru i mewn i'r gilfan fysiau. Pan fyddwch yn dynesu at fuarthau'r ysgol, bydd ein staff cyfeillgar yno i helpu i egluro ein manau danfon a chasglu

newydd a gofynnwn i chi barchu'r ceisiadau hyn ar bob adeg os gwelwch yn dda. Byddai hefyd o gymorth mawr i ni pe gallech geisio cyfyngu nifer yr oedolion ar y safle ar gyfer danfon a chasglu plant i un rhiant/gofalwr, a fydd o gymorth gyda chadw pellter cymdeithasol. Gofynnwch i unrhyw aelod o staff yr ysgol os ydych yn ansicr beth i'w wneud pan fyddwch yn cyrraedd yr ysgol.

## **Beth ydym ni wedi'i wneud hyd yma?**

### **Paratoi (Crynodeb)**

Er mwyn i holl ddefnyddwyr safle'r ysgol ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel, rydym wedi sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl wiriadau cydymffurfio ag iechyd a diogelwch wedi cael eu cynnal cyn agor
- Bod yr adeilad wedi cael ei lanhau gan Wasanaethau Glanhau CBS Pen-y-bont ar Ogwr
- Ein bod wedi gofyn am wasanaeth glanhau ychwanegol yn ystod y diwrnod ysgol
- Y bydd marciau ar y llawr i ddangos y cyfeiriad teithio
- Bod 'traed' cadw pellter cymdeithasol wedi'u gosod mewn ardaloedd fel y neuadd fwyta a'r toiledau y tu allan
- Bod nodiadau i atgoffa am y canllawiau ar gael mewn ardaloedd cymunol ac yn yr ystafelloedd dosbarth
- Y bydd disgyblion yn cael eu hannog i wisgo dillad sy'n lân, yn gyfforddus ac yn hawdd i'w golchi
- Y bydd cyfarpar diogelwch personol ar gael yn yr ardal ynysu o fewn yr ysgol ar gyfer achosion tybiedig o Covid-19 ac mewn manau priodol o amgylch yr ysgol o ran gofal agos i ddisgyblion, lle y bo angen

## **Pa fesurau fydd ar waith pan fydd yr ysgol yn ailagor ar Fehefin 29?**

### **Cael mynediad i safle'r ysgol**

Er mwyn i holl ddefnyddwyr yr ysgol gael mynediad diogel i safle'r ysgol, rydym wedi sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl ymwelwyr â'r ysgol wedi cael, ac y byddant yn cael, eu hannog i beidio ag ymweld oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol
- Y bydd cwestiynau am Covid-19 yn cael eu gofyn i'r holl ymwelwyr sy'n dod ar safle'r ysgol
- Y bydd unrhyw gyfarfodydd gyda rhieni ac unrhyw gyfarfodydd allanol sy'n ofynnol yn cael eu cynnal gan ddefnyddio 'dull rhithwir'
- Bod trefniadau ar gyfer danfon a chasglu plant gan rieni'n cyfyngu i'r eithaf ar gyswllt ac yn hybu'r arfer o gadw pellter cymdeithasol
- Bod arwyddion wrth fynedfeydd yn dangos y rheolau mynediad
- Bod derbynfa / mynedfa'r ysgol wedi'i threfnu mewn modd sydd o gymorth i gadw pellter cymdeithasol
- Y bydd staff yn cael eu neilltuo i fannau o amgylch tu allan yr adeilad i annog pawb i gadw pellter cymdeithasol ac i sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn ystod gweithgareddau awyr agored, wrth gyrraedd ac wrth gasglu plant
- Y bydd offer / meinciau awyr agored wedi cael eu hynysu ac na fyddant yn cael eu defnyddio

## **Symud o amgylch safle'r ysgol**

Er mwyn i holl ddefnyddwyr safle'r ysgol symud o amgylch y safle'n ddiogel, rydym wedi sicrhau'r canlynol:

- Bod pobl yn symud o amgylch yr adeilad mewn un cyfeiriad yn unig
- Y bydd drysau ystafelloedd dosbarth yn cael eu gadael ar agor, lle y bo'n bosibl, i leihau i'r eithaf y cyswllt ag arwynebau
- Bod drysau ar wahân yn cael eu defnyddio ar gyfer mynd i mewn ac allan
- Bod manau Gadael yr Adeilad ac Ymgynnull yn dal i fod yr un fath ac y byddant yn ei gwneud yn bosibl cadw pellter cymdeithasol
- Bod 'bloc' toiledau wedi cael ei neilltuo ar gyfer pob grŵp blwyddyn neu'r Hwb
- Y bydd toiledau'n gweithredu ar sail system un i mewn, un allan
- Na fydd cafau wrinol yn cael eu defnyddio
- Y bydd cyflenwadau sebon, tywelion papur a hancesi papur yn cael eu hadnewyddu trwy gydol y dydd
- Bod amseroedd egwyl, cinio, cyrraedd a chasglu wedi cael eu gwasgaru i leihau nifer y bobl sy'n tyrru i'r un lle
- Bod defnydd o'r neuadd wedi cael ei reoleiddio a'i amserlennu ar gyfer amser cinio
- Y bydd cinio ysgol a chinio pecyn yn cael eu bwyta yn y neuadd, yn ôl amserlen, a chan gadw pellter cymdeithasol
- Y gofynnir i rieni/gofalwyr ddarparu opsiynau hawdd-i'w-hagor fel rhan o becyn cinio
- Y byddwn yn gofyn i ddisgyblion fynd ag unrhyw wastraff sy'n weddill ar ôl bwyta cinio pecyn adref gyda nhw
- Y bydd defnydd o'r holl fannau eraill a rennir yn dod i ben am y tro hyd y gellir rhagweld
- Y bydd addoli ar y cyd yn cael ei hwyluso trwy wasanaethau a myfyrdodau dosbarth hyd y gellir rhagweld
- Y bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer cyflogaion a disgyblion sy'n wynebu risg arbennig

## **Yn yr Ystafell Ddosbarth**

Er mwyn i holl ddefnyddwyr yr ysgol ddefnyddio'r ystafelloedd dosbarth yn effeithiol, rydym wedi sicrhau'r canlynol:

- Bod ystafelloedd dosbarth wedi cael eu cyflunio ar gyfer niferoedd llai o ddisgyblion
- Bod ystafelloedd dosbarth yn hybu'r arfer o gadw pellter cymdeithasol mewn modd effeithiol
- Y gofynnir i staff a disgyblion 'ddod â' chyn lleied â phosibl o eitemau i'r ysgol
- Bod gweithgareddau wedi cael eu cynllunio i wneud cymaint â phosibl o ddefnydd o'r ardaloedd awyr agored
- Bod amserlenni'n hyblyg ac yn gallu cael eu haddasu lle y bo angen
- Y bydd yr holl staff yn atgyfnerthu ac yn atgoffa disgyblion yn rheolaidd am yr arfer o olchi dwylo wrth gyrraedd, ar ôl bwyta ac ar ôl pesychu neu disian, ar ôl trin a thrafod offer a rennir, ar ôl cyswllt corfforol, a chyn ac ar ôl trin bwyd.
- Y bydd staff yn cael eu neilltuo i'r un grwpiau dosbarth yn feunyddiol
- Y bydd disgyblion yn defnyddio'r un ystafell, cadeiriau a desgiau bob dydd
- Y bydd o leiaf ddwy ffenestr ar agor ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd i alluogi awyru naturiol cyson i ddigwydd
- Y bydd chwistrell a/neu gadachau diheintio ar gael yn yr holl ystafelloedd dosbarth a swyddfeydd bob dydd
- Bod biniau ar wahân â chaeadau mecanyddol arnynt wedi cael eu gosod ym mhob ystafell ddosbarth yn benodol ar gyfer gwaredu hancesi papur wedi'u defnyddio
- Y bydd staff a disgyblion yn cael eu hatgoffa am bwysigrwydd peidio â rhannu offer

- Y bydd desgiau, cadeiriau ac offer arall yn cael eu diheintio/glanhau ar ddiwedd pob dydd
- Na fydd adnoddau'n cael eu symud o'r ysgol

### **Sut fyddwn ni'n gwybod bod y mesurau hyn yn effeithiol?**

#### **Monitro**

Er mwyn i'r ysgol sicrhau bod y mesurau hyn yn effeithiol, byddwn yn:

- Rhannu'r rheolau a mesurau rheoli newydd ar gyfer disgyblion trwy sesiynau amser cylch bob wythnos
- Cysylltu â rhieni unigol i ofyn i rywun gasglu eu plentyn, os ydynt yn torri'r rheolau a mesurau rheoli newydd dro ar ôl tro
- Rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr am arferion gorau o ran hylendid
- Monitro'r drefn lanhau a chynyddu ein gofynion glanhau ychwanegol gyda CBS Pen-y-bont ar Ogwr ymhellach, os oes angen
- Annog rhieni/gofalwyr i gysylltu â ni ar y cyfeiriad e-bost 'admin' os oes ganddynt unrhyw ymholiadau
- Parhau i rannu arfer gorau gyda defnyddwyr safle'r ysgol
- Diwygio a datblygu ein cynlluniau cychwynnol ar fyrder, os oes angen

Gobeithio, trwy ddarparu'r wybodaeth yn y ddogfen hon ar eich cyfer, ein bod wedi ateb rhai o'ch pryderon. Cysylltwch â ni'n ddiymdroi ar [admin.broogwr@bridgend.gov.uk](mailto:admin.broogwr@bridgend.gov.uk) os oes angen.

Gyda'n dymuniadau gorau

Staff Bro Ogwr